



Twitter: [@PINSgov](https://twitter.com/PINSgov)

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio>

FFURFLEN APÊL SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG (SoDdGA)

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â'n Llinell Gymorth ar 0303 444 5940.

RHYBUDD: Rhaid i'ch apêl gyrraedd yr Arolygiaeth Gynllunio cyn pen deufis o ddyddiad penderfyniad CNC neu o ddiwedd y cyfnod penderfynu.

PRINTIWC H YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU

A. APELYDD – Rhaid i enw'r unigolyn/unigolion sy'n gwneud yr apêl ymddangos fel ymgeisydd ar y cais am ganiatâd. Os na wneir hynny, mae'n bosibl na chaiff yr apêl ei chofrestru.

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	

B. ASIANT (os oes un) AR GYFER YR APÊL

Enw	
Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Cyfeirnod	

C. CYFOETH NATURIOL CYMRU (CNC)

Cyfeiriad a chyswllt rhanbarthol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)	
Rhif cyfeirnod CNC	
Dyddiad y Cais am Ganiatâd	
Dyddiad Hysbysiad o Benderfyniad CNC (os y'i cyhoeddwyd)	

D. CYFEIRIAD SAFLE'R APÊL

Cyfeiriad	
Cod post	

	Perchen nog	Preswly dd
Tystiaf fy mod yn berchennog neu'n breswlydd y rhan o'r tir sydd wedi'i chynnwys yn y SoDdGA.		

	OES	NAC OES
A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle, neu'n agos ato, y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle? Os oes, esboniwch isod.		

--

E. MANYLION AM Y GWEITHREDIADAU ARFAETHEDIG

Disgrifiwch natur a sefyllfa'r tir a'r gweithrediadau arfaethedig. Fel arfer, dylid cymryd hyn o'r cais am ganiatâd, ond os cafodd y gweithrediadau arfaethedig eu diwygio tra'r oeddent yn cael eu hystyried gan CNC, cewch roi disgrifiad o'r gweithrediadau diwygiedig.

--

F. RHESWM DROS YR APÊL

Mae'r apêl hon yn erbyn:

Ticiwch un dewis yn unig



1.	CNC yn gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer y gweithrediadau arfaethedig.	
2.	CNC yn rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau rydych yn eu gwrthwynebu.	
3.	Methiant CNC i roi penderfyniad cyn pen y cyfnod priodol (4 mis, fel arfer, neu gyfnod estynedig cytûn) ar gais am ganiatâd ar gyfer y gweithrediadau arfaethedig.	
4.	CNC yn addasu caniatâd.	
5.	CNC yn tynnu caniatâd yn ôl.	

G. SAIL YR APÊL

Dyma'ch cyfle i gyflwyno eich achos mewn perthynas â'r rheswm dros yr apêl fel y nodir yn adran F. Rhowch sail yr apêl ac unrhyw ffeithiau ategol yr hoffech ddibynnu arnynt. Dylech fynd drwy'r rhesymau dros benderfyniad CNC (os y'u darperir) ac esbonio pam eich bod yn anghytuno. Dylid cynnwys dim ond y materion ym mhenderfyniad CNC a'r materion a gyflwynwyd gennych chi yn eich cais am ganiatâd. Ni ddylech gyflwyno unrhyw faterion newydd nad oeddent gerbron CNC oni bai y gallwch ddangos bod amgylchiadau eithriadol wedi eich rhwystro rhag eu codi ar y pryd. Os ydych yn apelio yn erbyn amodau, dylech nodi'n glir ba amodau rydych yn apelio yn eu herbyn a pham.

Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen



1. Sylwadau Ysgrifenedig**W**

Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys cyfnewid datganiadau ysgrifenedig y partïon. Os oes angen ymweld â'r safle, byddwch chi a CNC yn cael cyfle i fynd gyda'r Arolygydd yn ystod yr ymweliad â'r safle.

2. Gwrandawriad**H**

Trafodaeth dan gyfarwyddyd Arolygydd yw gwrandawriad. Mae'n caniatáu i'r partïon rhannu eu safbwyntiau mewn awyrgylch llai ffurfiol nag ymchwiliad cyhoeddus. Mae gwrandawriadau ar agor i'r cyhoedd a gall trydydd partïon gael eu clywed, yn ôl disgrisiwn yr Arolygydd. Fel arfer, nid yw gwrandawriadau'n addas ar gyfer apeliadau:

- sy'n gymhleth neu'n ddadleuol ac sydd wedi creu llawer o ddiddordeb lleol; neu
- lle mae angen croesholi tystion.

Sylwer, er y gallai gwrandawriad fod yn well gennych, bydd yr Arolygiaeth hefyd yn ystyried p'un a fyddai'n well ymdrin â'ch apêl mewn ymchwiliad mwy ffurfiol neu ar sail sylwadau ysgrifenedig.

3. Ymchwiliad**I**

Dyma'r weithdrefn fwyaf ffurfiol. Er nad yw'n llys barn, yn aml bydd yr achosion yn ymddangos yn eithaf tebyg oherwydd caiff partïon yr apêl eu cynrychioli'n gyfreithiol, fel arfer, a chaiff tystion arbenigol eu galw i roi tystiolaeth; mae ymchwiliadau ar agor i'r cyhoedd a gall trydydd partïon gael eu clywed, yn ôl disgrisiwn yr Arolygydd. Yn gyffredinol, ymchwiliad yw'r ffordd orau i ymdrin ag achos:

- sy'n cynnwys materion cyfreithiol cymhleth;
- sydd wedi achosi llawer o ddiddordeb lleol; neu
- sy'n cynnwys yr angen i holi tystiolaeth drwy groesholi ffurfiol.

Caiff ymchwiliad ei gynnal os byddwch chi neu CNC yn penderfynu nad ydych eisiau defnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig a'n bod yn penderfynu nad yw gwrandawriad yn addas. Weithiau, hyd yn oed os bydd y naill barti a'r llall wedi dewis y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig neu wrandawriad anffurfiol, efallai y byddwn yn penderfynu cynnal ymchwiliad. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam felly.

Os hoffech i ni gynnal ymchwiliad, rhwch eich rhesymau pam isod:

I. DOGFENNAU ATEGOL HANFODOL

Rhaid i'r dogfennau a restrir isod gael eu hanfon gyda'ch ffurflen apêl. Os na fyddwn yn derbyn holl ddogfennau eich apêl erbyn diwedd y cyfnod apelio o ddeufis, ni fyddwn yn delio â hi.

Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau rydych yn eu hamgáu.



1	Copi o'r hysbysiad gwreiddiol yn gofyn am ganiatâd, y gwnaethoch ei anfon at CNC, gan gynnwys unrhyw fapiau a chynlluniau.	
2	Copi o hysbysiad o benderfyniad CNC (os y'i cyhoeddwyd) ac unrhyw wybodaeth ategol.	
3	Copi o benderfyniad CNC i addasu caniatâd neu ei dynnu'n ôl.	
4	Copi o lythyr cofrestru CNC ar gyfer y cais am ganiatâd.	
5	Unrhyw ohebiaeth berthnasol arall â CNC.	
6	Os yw'r apêl yn cael ei chyflwyno y tu allan i'r terfynau amser statudol a'ch bod wedi cytuno ar estyniad i'r terfyn amser â CNC, copi o'r cytundeb hwnnw.	

Manylion Personol (ni fydd y rhain ar gael i'r cyhoedd)

1. Manylion personol yr apelydd

Cyfeiriad	
Cod post	
Rhif ffôn yn ystod y dydd	
E-bost	

	Cymraeg	Saesneg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Byddai'n well gennyf pe byddech yn cysylltu â mi drwy'r		

2. Manylion personol yr asiant (os oes un)

Cyfeiriad	
Cod post	
Rhif ffôn yn ystod y dydd	
E-bost	

	Cymraeg	Saesneg
Dewis Iaith		

	E-bost	Post
Byddai'n well gennyf pe byddech yn cysylltu â mi drwy'r		



Caiff data personol a gyflenwir gennych chi ar y ffurflen hon ei gasglu a'i brosesu wedi hynny yn unol â thelerau ein cofrestriad dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data i'w gweld ar ein gwefan dan "Polisi Preifatrwydd" (https://llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio?privacy_policy)

LLOFNODWCH ISOD (rhaid i ni dderbyn ffurflenni wedi eu llofnodi, ynghyd â'r holl ddogfennau ategol, cyn pen y cyfnod apelio)

Cadarnhaf fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen apêl hon at CNC (os na fyddwch yn gwneud hynny, ni chaiff eich apêl ei derbyn, fel arfer).

Cadarnhaf fod yr holl adrannau wedi eu llenwi hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwy'n deall y gallech ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol, ac y bydd unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd yn cael eu rhannu gan yr asiantaethau a'r partïon sy'n gysylltiedig â'r apêl ac ar gael i'r cyhoedd. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a ddarperir gennyf gael ei defnyddio yn y ffordd hon.

Llofnod:

Enw (mewn priflythrennau)

Dyddiad

Ar ran (os yw'n berthnasol)

ANFONWCH

1 COPI atom ni yn:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E- bost:

cymru@planninginspectorate.gov.uk

Llinell Gymorth: 0303 444 5940

1 COPI at CNC

Anfonwch gopi o'r ffurflen apêl a datganiad llawn o'r achos at y cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad penderfynu ohono (neu'r cyfeiriad sydd i'w weld ar unrhyw lythyrau gan yr CNC).

Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt eto. Anfonwch unrhyw ddogfennau ategol na anfonwyd yn flaenrol fel rhan o'r cais.

Dylech gadw copi ar gyfer eich cofnodion chi

Wedi i ni dderbyn eich ffurflen apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi a yw eich apêl yn ddilys ai peidio, pwy sy'n ymdrin â hi a beth fydd yn digwydd nesaf.

© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen/cyhoeddiad hwn atom ni yn y cyfeiriad uchod neu drwy e-bost at: cymru@pins.gsi.gov.uk.